# TAITH PORTH YCHAIN

Hyd: **6.7km – 4.2m**




**Cyfarwyddiadau**

- Dilyn cyfarwyddiadau Taith Porth Ysgaden nes cyrraedd Porth Ysgaden.
- Parhau ymlaen ar Lwybr Arfordir Llŷn heibio Porth Gwylan (SH 216368) ac i Borth Ychain (SH 209360).
  *Gellir byrhau'r daith yma trwy ddilyn Taith D Byr*
- Gadael yr arfordir a dilyn llwybr a lôn drol heibio Tyddyn Belyn (SH 2178360) i Ffordd yr Arfordir.
- Dal i'r chwith ac ar lwybr i'r dde heibio 'Raifft (SH 224358).
- Wrth ddod allan i'r ffordd, dal i'r dde ac i Benlon Caenewydd (SH 230361)
- Dilyn y B4417 i'r chwith at Dudweiliog ond troi i'r chwith cyn cyrraedd Siop Isaf (SH 234364).
- Dal i'r dde heibio'r Felin ac i fyny'r llwybr at yr Ysgol.
- Dychwelyd i faes parcio'r 'Lion'.

**<u>Pethau i'w gweld ar y daith:</u>**



### 6 Porth Cychod

Cysylltir y fan hyn a digwyddiad arbennig iawn. Un bore ym mis Mawrth 1933, cychwynnodd dau lanc ifanc allan mewn cwch i osod cewyll, ond collasant eu rhwyfau.

Fe'u cariwyd allan i'r môr gan y gwynt a'r llanw a'r diwedd fu iddynt gael eu golchi i'r lan yn Kilkeel yng ngogledd Iwerddon. Gallwch ddychmygu'r holl bryderu a fu yn Nhudweiliog a'r llawenydd pan gafwyd y neges fod yr hogiau'n ddiogel. Tybed beth fyddai eu tynged pe bai'r gwynt wedi chwythu ychydig mwy i'r gorllewin a'u gyrru heibio gogledd Iwerddon.

Ar yr allt gwelir adeilad a fu unwaith yn fan i deulu Cefnamwlch gysgodi pan ddeuent i fwynhau'r haul ac awel y môr yn ystod yr haf.



### 7 Porth Gwylan

Traeth cysgodol yn wynebu'r gorllewin. Ar yr allt mae man a elwir yn Ogof Gigfran.

Gwelir nyth cigfran yn y creigiau.



### 9 Porth Ychain

Mae hanes i dair ar ddeg o fuchod Tŷ Mawr Penllech fynd dros yr allt yn Ogof Fari, stori sy'n gwneud i rywun feddwl mai hyn roddodd fod i'r enw Porth Ychain. Hanes difyr arall yw'r un am y llong a gariai lwyth o rum a ddaeth i'r lan rhyw dro, gyda dim ond wats yn tician mewn caban a mochyn byw ar ei bwrdd. Beth achosodd hynny tybed?

Dywedir bod y llyfr log wedi ei gwblhau yn daclus am y diwrnod cynt. Ceir stori gyffelyb gan Ioan Mai Evans yn narlith Clwb y Bont 1990 pan gyfeiria at long yn dod i'r lan â mochyn du arni a brynwyd wedyn gan hwsmon Cefnamwlch.



### 7 Porth Ysgaden

Un o'r porthladdoedd bychain a fu'n brysur yn gwasanaethu ardal wledig Pen Llŷn, ardal brin ei thrafnidiaeth ar dir. Deuai llongau bychain yma rhyw hanner dwsin o weithiau bob blwyddyn yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ôl David Thomas. Yn y ganrif flaenorol deuent o Lerpwl a Chaer yn bennaf gan fewnforio nwyddau megis llestri, haearn, lledr, pyg, tar, baco, snisin, te, coffi, gwin, siwgr, orennau ac ati.

Deuid â sôp wast yn falast o Iwerddon i'w chwalu ar y caeau fel gwrtaith i'r tir, ynghyd â chanhwyllau gwêr, lliain, a chasgenni gweigion i'r penwaig. Un tro, ym mis Awst 1759, daeth pum dwsin o hetiau ffelt o Gaernarfon i Borth Ysgaden.

Mwy . . .

## 7 Porth Ysgaden

Mwy . . . Deuid â glo yma wrth gwrs ac mae'r ierdydd i'w gweld heddiw. Mewnforid hefyd galch a chodwyd odyn i'w losgi. Arferai gwragedd yr ardal ymgynnull i wau a chadw'n gynnes wrth dân yr odyn. Ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, cynnyrch fferm a allforid - nwyddau megis menyn a chaws.

Arferai'r murddun a welir ar ben yr allt fod yn gartref i saer cychod a'i deulu. Ar dywydd garw arferai'r fam grogi cannwyll yn y ffenestr i rybuddio llongau fod creigiau ysgithrog islaw.



## 4 Traeth Tywyn

Yr enw ar y rhostir gwastad ar ben yr allt a'r ardal gyfagos.

Arno mae craig o'r enw Yr Ebol gydag ôl troed ceffyl arni. Dywedir y byddai'r ŷd yn ddrud iawn bai'r môr yn golchi'r tywod oddi ar yr ôl troed ac i'r gwrthwyneb pe bai'r tywod yn ei orchuddio



## 1 Tudweiliog

Tudweiliog - Dywedir mai Tudwal oedd y sant gwreiddiol y plwyf ac mai ef a roddodd ei enw i'r pentref.

Eglurir enw'r pentref hefyd gyda stori am ddyn a'i geffyl yn nofio o Iwerddon i Lŷn, ac er mwyn annog y ceffyl i nofio'n gyflymach mae'n galw arno "Ty'd Weiliog! Ty'd Weiliog"!'

Eglurhad arall yw bod modd ers talwm groesi ar gefn ceffyl i Iwerddon ar drai. Wrth ddychwelyd i Dudweiliog ar gefn ei geffyl o'r enw Gweiliog, clywodd y person gloch yr eglwys yn galw'r plwyfolion. Ceisiodd ruthro'i geffyl a gweiddi 'Tyrd Weiliog'!

Awgrymir hefyd fod yr enw'n gysylltiedig â Sant Tudwal.



## 10 Tyddyn Belyn

Dywedir y bu eglwys yn yr ardal hon yn yr hen amser wedi ei sefydlu gan Belyn Sant.

Yn y ffermdy hwn y cynhaliodd Howell Harris seiadau - y gyntaf ohonynt yn gynnar ym mis Chwefror 1741.